**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Prifysgolion Cymraeg

12 Mehefin 2017

Annwyl

**Llais cryfach i Gymru**

Rwyf yn ysgrifennu fel Cadeirydd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Fel y gwyddoch o bosibl, mae'r y Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i gysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng Cymru a'r DU.

Lansiwyd ein hymchwiliad ym mis Rhagfyr 2016 a nodwyd yr amcanion canlynol:

- Llunio egwyddorion arfer gorau ar gyfer dulliau o weithio rhwng sefydliadau ar gyfer deddfwriaeth gyfansoddiadol.
- Ystyried gwaith deddfwrfeydd eraill o ran eu dulliau o weithio rhwng sefydliadau ac adeiladu arno pan fo'n ymwneud â meysydd polisi ehangach.
- Ceisio, sefydlu a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dulliau o weithio rhwng seneddau, gan gynnwys hyrwyddo'r broses o ymgysylltu â dinasyddion.

Er bod ein hymchwiliad yn edrych yn ôl ar y daith ddatganoli yng Nghymru, rydym hefyd yn ystyried sut y gall y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau cyfatebol ledled y DU i wella bywydau dinasyddion ymhellach ym mhob cwr o'n gwlad.

Un o'r themâu sy'n dod i'r amlwg yw'r diffyg gwybodaeth am ddatganoli sy'n bodoli yn enwedig ymhlith gweision sifil Whitehall.

Mae'n bwysig ein bod yn mynd i'r afael â'r her o newid y meddylfryd yn Whitehall pan fo angen i hynny ddigwydd. Wrth ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn mae gennym ddiddordeb yn y rôl y gall addysg chwarae. Gan hynny, byddwn yn ddiolchgar am eich sylwadau ar y materion a ganlyn:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

- Pa fath o waith mae eich Prifysgol yn ei wneud mewn perthynas ag astudiaethau seneddol?
- Pa rôl gyffredinol rydych chi'n credu y gallai prifysgolion Cymru ei chwarae i helpu i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth am ddatganoli yng Nghymru i rannau eraill o'r DU?
- Pa gysylltiadau sydd gennych gyda phrifysgolion eraill yn y DU, ac a fyddai'n ymarferol defnyddio'r cysylltiadau hyn i hyrwyddo dealltwriaeth o ddatganoli yng Nghymru?
- Unrhyw sylwadau eraill a all fod o gymorth wrth fynd i'r afael â'r mater hwn yn eich tyb chi.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Huw Irranca-Davies**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.